

Calon crefydd

“Ond fe dderbyniwch nerth wedi i’r Ysbryd Glân ddod arnoch.” (adn. 8)

Beth am ddarllen Actau 1:1–11 ac yna myfyrio

Nodwedd arall o fywyd yr eglwys yn Antiochia oedd parodrwydd y credinwyr i fod yn agored i weinidogaeth yr Ysbryd Glân. Yr ydym yn darllen yn Actau 13:2: “Tra oeddent hwy’n offrymu addoliad i’r Arglwydd ac yn ymprydio, dywedodd yr Ysbryd Glân...”. Mae’n amlwg fod yr Ysbryd Glân yn cael ei gydnabod yn yr eglwys yn Antiochia. Pan fyddai’n llefaru, fe fyddai’r credinwyr yn gwranddo.

Mae’n bosibl i dynnu llinell mewn un man yn y Testament Newydd, ac ar y naill ochr i’r llinell, fe fyddwch yn darganfod annigonolrwydd ysbrydol, a’r cyfan yn siom. Ar yr ochr arall i’r llinell, fe fyddwch yn darganfod digonolrwydd ysbrydol, sicrwydd moesol, a grym anghyffredin, y cyfan mor gyffrous. Y lle i dynnu’r llinell yw hanes tua chant ac ugain o ddisgyblion yn dod ynghyd i ddisgwyl am y grym a addawyd gan yr Arglwydd – addewid a gyflawnwyd ar Ddydd y Pentecost pan llanwyd hwy â’r Ysbryd Glân. Ar y foment yna, fe gychwynnodd cyfnod newydd yn natblygiad ysbrydol pobl yr Arglwydd. Wedi’r foment yma, gallwch ddarganfod grym sydd â’r gallu ganddo i drawsnewid dynoliaeth. Yn ôl Dr Martyn Lloyd-Jones “Mae calon crefydd yn ei grym.”

Mewn adolygiad o lyfr ar waith yr Ysbryd Glân a gyhoeddwyd yn y *Times* yn ddiweddar, cafwyd y sylw canlynol: “Nid oes yr un athrawiaeth mor gymhleth i’r person cyffredin na’r athrawiaeth am yr Ysbryd Glân.” Ymhlith y Cristnogion cynnar, beth bynnag, roedd yr Ysbryd Glân, nid yn gymaint yn gymhleth, ond yn rym oedd yn cynnal bywyd eu ffydd. Dyma’r deinamig oedd yn gyrru eu bywyd. Mae braidd yn amhosibl dweud wrth ddarllen Llyfr yr Actau ble’r oedd gweithredoedd yr apostolion yn dod i ben a gwaith yr Ysbryd Glân yn cychwyn. Roedd y dynol a gwaith yr Ysbryd yn un. Felly, hefyd, mae’n rhaid i’r un grym gael ei amlygu yn yr Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 14:16–17; 14:26; 15:26; 16:7–15

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd addewid Iesu mewn perthynas â’r Ysbryd Glân?
2. Sut fyddai’r Ysbryd Glân yn eiddo i’r:
 - a) disgyblion b) byd?

Gweddi

O Dduw, sut yn y byd y medrwn wynebu sialens y mileniwm newydd yma, os na chawn ni ein hwynebu â grym dy Ysbryd di. Dyro i ni yr un deinamig ag a oedd yn eiddo i’r Eglwys Fore. Yna, medrwn droi’r byd â’i ben i waered. Amen.